Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2726A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 6

Rheoli adnoddau ariannol 18

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau o gam dau gwaith asesu strwythuredig 2021 yr Archwilydd Cyffredinol yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2021 (cam un) drefniadau cynllunio gweithredol yr Ymddiriedolaeth a sut mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Roedd pandemig COVID-19 yn gofyn i gyrff y GIG addasu yn gyflym eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau y cymerwyd camau amserol i ymateb i'r cynnydd yn y galw brys oherwydd COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2020 drefniadau llywodraethu diwygiedig yr Ymddiriedolaeth ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Awst 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau cyfredol a gyflwynir gan COVID-19, gan ddechrau datblygu cynlluniau hefyd i ailgyflwyno ac adfer y gwasanaethau y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt. Felly, cynlluniwyd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2021 yng nghyd-destun yr ymateb cyfredol i'r pandemig, gan sicrhau dull pragmatig addas o helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a chan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Ystyriodd cam dau ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2021 sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae pwyslais allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae'r busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi ei adfer a sut mae dysg o'r pandemig yn llywio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu da a sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o'r cynnydd a wneir o ran cyflawni Cynllun Blynyddol 2021-22 yr Ymddiriedolaeth.

5 Rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu ag unrhyw feysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod yr **Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ei threfniadau llywodraethu corfforaethol, cynllunio a rheoli ariannol yng nghyd-destun pwysau sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau, sy'n peryglu**

**effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau ambiwlans brys a'r broses o drawsnewid gwasanaethau tymor hwy.**

7 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wella trefniadau llywodraethu, rheoli risgiau ac ansawdd a sicrhau diogelwch, ond nid yw wedi diwygio ei fframwaith rheoli perfformiad eto. Mae ganddi drefniadau da ar gyfer datblygu cynlluniau. Fodd bynnag, mae materion o fewn ei rheolaeth ac fel arall sy'n golygu bod gwasanaethau o dan bwysau difrifol sy'n peri risgiau i ddiogelwch cleifion a'r broses o gyflawni cynlluniau y cytunwyd arnynt ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

8 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i gyflawni ei hamcanion ariannol ar gyfer 2020-21 ac mae'n parhau i wella rheolaethau ariannol ac mae trefniadau adrodd da ar waith. Fodd bynnag, dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i fonitro ac ystyried treuliau annisgwyl er mwyn atal pwysau gwario neu wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 nad ad-delir, sy'n peryglu amcanion yn y dyfodol.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

9 Ystyriodd ein gwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu yr Ymddiriedolaeth wrth iddi barhau i ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig.

10 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wella trefniadau llywodraethu a rheoli risgiau. Fodd bynnag, mae ffactorau mewnol ac allanol yn rhoi gwasanaethau dan bwysau difrifol, sy'n peri risgiau i ddiogelwch cleifion a'r broses o gyflawni'r cynlluniau y cytunwyd arnynt er mwyn trawsnewid gwasanaethau**.

### Cynnal busnes yn effeithiol

11 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithredu'r Bwrdd a'i Phwyllgorau ar ffurf rithwir, ond y bydd angen iddi reoli heriau sylweddol o ran trosi cyfarwyddwyr anweithredol yn ystod y chwe mis nesaf.**

#### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

12 Mae cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir a, heblaw am y Pwyllgor Cyflogau, maent yn agored i'r cyhoedd. Caiff cyfarfodydd y Bwrdd eu darlledu'n fyw, ac yna mae recordiadau ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

13 Cyhoeddir papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau ar wefan yr Ymddiriedolaeth saith niwrnod cyn cyfarfodydd. Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno cwestiynau i'r Bwrdd eu hystyried, ac ers 26 Tachwedd 2020, mae dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn bresennol yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Yn ein hadroddiad asesu strwythuredig yn 2020, dywed yr Ymddiriedolaeth wrthym fod rhagor o aelodau'r cyhoedd yn dilyn cyfarfodydd y Bwrdd ers iddynt gael eu cynnal ar ffurf rithwir. Mae wedi dechrau cofnodi nifer y cyhoedd sy'n bresennol ar y cofnodion fel mater o drefn yn ogystal â chofnodi'r rhain ar y taflenni presenoldeb cyffredinol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ffrydio unrhyw un o'i phwyllgorau yn fyw. Pe byddai aelodau o'r cyhoedd yn dymuno bod yn bresennol, gallant ofyn am ddolen i ymuno â'r cyfarfodydd pwyllgor.

#### Trefniadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau

14 Mae'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau o ansawdd da. Mae adroddiadau cwmpasu eitemau agenda y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cynnwys crynodeb o'r materion a'r goblygiadau allweddol, y llwybr cymeradwyo, cysylltiadau allweddol a'r rhestr wirio (er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chynnwys). Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, rydym yn nodi bod yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu adroddiadau cwmpasu i gynnwys pwyntiau allweddol a godwyd mewn unrhyw drafodaethau pwyllgor blaenorol er mwyn llywio

gwaith craffu'r Bwrdd a'i phroses o wneud penderfyniadau, ac mae hyn wedi eu rhoi ar waith. Mae'r cofnodion yn gynhwysfawr ac yn gofnod da o'r trafodaethau a'r penderfyniadau, sy'n tynnu sylw at y materion allweddol a drafodwyd.

15 Dengys ein hasesiad strwythuredig yn 2020 fod yr Ymddiriedolaeth wedi gallu parhau â'i busnes Bwrdd a phwyllgorau arferol i raddau helaeth yn ystod y pandemig, a chyfeiria at ddefnyddio camau gweithredu'r Cadeirydd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau brys. Cynhaliwyd naw Cyfarfod Gweithredu y Cadeirydd yn ystod 2020-21 er mwyn ymdrin â busnes brys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud sawl newid i'w phrosesau ar gyfer cymeradwyo Camau Gweithredu y Cadeiryddion, gan gynnwys diwygio ei chynllun cadw a dirprwyo. Cyflwynwyd y nodiadau a ddeilliodd o'r cyfarfodydd i Fwrdd nesaf yr Ymddiriedolaeth, i'w cadarnhau.

16 Mae Cadeiryddion y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol yn parhau i weithio gyda'i gilydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grŵp strategaeth sy'n cynnwys rhai o'i chyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol. Mae risg y gallai'r grŵp achub y blaen ar drafodaethau a ddylai fod yn digwydd yn y Bwrdd. Trwy gydol 2020-21, cynhaliodd y Prif Swyddog Gweithredol gyfarfodydd 'Cyflwr y Genedl' misol gyda'r Cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r rhain wedi cael eu disgrifio i ni fel bwrdd seinio defnyddiol i'r Prif Swyddog Gweithredol ar faterion a chynlluniau allweddol sy'n dod i'r amlwg. Hefyd, roedd cyfarwyddwyr anweithredol yn ymgysylltu â datblygiad Strategaeth Ddigidol newydd o'r enw 'Rhagoriaeth Aflonyddgar' drwy sesiynau gwaith gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol, a chafodd y Bwrdd llawn gyfle i gyfrannu drwy sesiwn Datblygu Bwrdd bwrpasol.

17 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd sawl cam i adolygu effeithiolrwydd ei Bwrdd a'i phwyllgorau yn ystod 2020-21:

- mae Cadeiryddion Pwyllgorau wedi archwilio lefel, manylion a chwmpas yr wybodaeth sy'n mynd i'r Bwrdd er mwyn sicrhau ei bod yn amserol ac yn berthnasol.
- mae cylch gorchwyl pob Pwyllgor wedi ei adolygu; daeth proses i ben ym mis Mawrth 2020 gyda chymeradwyaeth y Bwrdd. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod y newidiadau allweddol yn cynnwys sicrhau bod pob cyfarfod pwyllgor yn cynnwys rhan ar Risgiau Corfforaethol, ac mae'r Traciwr Argymhellion Archwilio yn disgrifio pob un o gyfrifoldebau cyffredinol y Pwyllgorau o ran sicrhau bod Risgiau Corfforaethol yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol, a bod prosesau ar waith i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio.
- mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi ystyried canlyniadau ei adolygiad ei hun o'i effeithiolrwydd. Mae ei ganfyddiadau'n cynnwys, er bod y pwyllgor yn darparu goruchwyliaeth ariannol dda ac yn ymgysylltu'n dda ag archwilwyr allanol, bod angen iddo ganolbwyntio ar fetrigau allweddol a chynhyrchu adroddiadau mwy cryno a llai ailadroddus.

- yn rhan o’i raglen Datblygu Bwrdd, cwblhaodd yr aelodau holiadur hunanasesu yn ystod haf 2020 a dau weithdy, a datblygodd Ysgrifennydd y Bwrdd gynllun gweithredu yn sgil hynny. Mae’r Bwrdd hefyd wedi ymestyn ei sesiynau datblygu o bob deufis i bob mis ers mis Hydref 2021, ac mae calendr o ddatblygiadau thematig y bwrdd wedi ei sefydlu.

18 Mae gan yr Ymddiriedolaeth amrywiaeth lawn o gyfarwyddwyr gweithredol ar hyn o bryd. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi cymryd sawl cam i gynnal cadernid a sefydlogrwydd y Bwrdd. Mae’r camau’n cynnwys:

- penodi cyfarwyddwr anweithredol interim am flwyddyn;
- cymeradwyo rhestr ddiwygiedig o’r cyfarwyddwyr anweithredol sy’n aelodau o’r pwyllgorau;
- cwmpasu swyddogaeth wag cyfarwyddwr anweithredol y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar gylchdro yn ystod 2019-20; a
- gweithredu’r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ag un swydd cyfarwyddwr anweithredol wag, sydd bellach wedi ei llenwi â phenodiad y cyfarwyddwr anweithredol interim.

Mae pob cyfarfod pwyllgor wedi cadw cworwm, ac mae gan yr Ymddiriedolaeth amrywiaeth lawn o gyfarwyddwyr anweithredol. Mae’r Ymddiriedolaeth yn recriwtio dau gyfarwyddwr anweithredol ar hyn o bryd ac rydym yn disgwyl y bydd yn recriwtio cadeirydd ac is-gadeirydd newydd yn ystod y 12 mis nesaf.

19 Canfu ein hasesiad strwythuredig 2020 y dylid cynnal dadansoddiad arfaethedig o fwlch yr Ymddiriedolaeth i nodi unrhyw anghenion hyfforddi ar gyfer aelodau newydd y bwrdd cyn gynted â phosibl. Mae’r gwaith hwn ar y gweill yn awr. Gyda’i gilydd, mae’r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn datblygu matrics sgiliau, er enghraifft, sgiliau Cymraeg, ac maent yn nodi pa gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol sy’n dangos pa sgiliau. Mae diben y matrics yn ddeublyg. Y bwriad yw cefnogi datblygiad aelodau presennol y bwrdd a llywio’r broses o recriwtio cyfarwyddwyr anweithredol yn y dyfodol. Hefyd, datblygwyd rhaglen gynefino ar gyfer aelodau newydd y bwrdd, a bydd yn barod ar gyfer aelodau newydd sy’n ymuno ym mis Ebrill 2022.

## Cynllunio ar gyfer adferiad[1]

20 Canfuom fod gan **yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar gyfer datblygu cynlluniau, ond bod ffactorau mewnol ac allanol yn rhoi gwasanaethau dan bwysau difrifol, sy'n peri risgiau i ddiogelwch cleifion a'r broses o gyflawni'r cynlluniau y cytunwyd arnynt er mwyn trawsnewid gwasanaethau**.

21 Gofyniad Llywodraeth Cymru oedd datblygu Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21. Yn lle hynny, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lunio cynllun blynyddol mewn cynllun tair blynedd, gyda blwyddyn un yn canolbwyntio ar adferiad a blynyddoedd dau a thri yn canolbwyntio ar uchelgeisiau tymor hwy. Trafododd y Bwrdd Gynllun Ariannol Tymor Canolig Integredig tair blynedd yr Ymddiriedolaeth yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021, gan ei gymeradwyo. Roedd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi craffu ar y drafft yn gynharach yn eu cyfarfodydd priodol ym mis Ionawr 2021.

22 Derbyniodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gadarnhaol, ond gofynnodd am wybodaeth ychwanegol am feysydd sy'n ymwneud â pherfformiad, cynllunio ariannol a chamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag oediadau yn ystod y broses o drosglwyddo gofal. Darparwyd rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn mewn ymateb manwl a gyhoeddwyd gan y Prif Weithredwr. Mae adolygiad Archwilio Mewnol mis Medi 2021 ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cadarnhau ei bod yn mynd i'r afael â'r meini prawf sydd yng ngofynion cynllunio GIG Cymru.

23 Wrth ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, adolygodd yr Ymddiriedolaeth ei risgiau, yn ogystal ag adolygu'r perfformiad blaenorol o'i gymharu â chynlluniau chwarterol 2020-21. Cymerodd yr Ymddiriedolaeth seiniau gan randdeiliaid (gan gynnwys cleifion, y cyhoedd a'r staff) am eu blaenoriaethau strategol arfaethedig a cheisiodd gysoni camau gweithredu arfaethedig yr Ymddiriedolaeth â bwriad strategol partneriaid. Barnodd Archwilio Mewnol fod yr 'Ymddiriedolaeth wedi datblygu, cymeradwyo a gweithredu dull effeithiol o nodi blaenoriaethau y Cynllun Tymor Canolig Integredig'. Rhoddodd sgôr sicrwydd sylweddol hefyd i lefel y gwaith craffu allanol a mewnol a gafodd y Cynllun Tymor

[1] Mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Cafodd y broses Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-2023 ei gohirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020 er mwyn caniatáu i gyrff y GIG ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd yn ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021. Ystyria ein hadroddiad o gam un asesiad strwythuredig 2021 drefniadau cynllunio gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Canolig Integredig, ac roedd y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans a Chadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys[2]yn cefnogi'r cynllun.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r angen i ailosod ac adfer ar lefel sefydliadol ac unigol, er mwyn cefnogi staff sydd wedi blino'n lân y gallai rhai ohonynt fod yn dioddef o broblemau iechyd meddwl a chorfforol a achosir gan y pandemig. Mae strategaeth lles staff yr Ymddiriedolaeth a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 (**paragraff 48**) yn cefnogi hyn. Mae'r strategaeth yn cynnwys llawer o gamau gweithredu ar gyfer cefnogi lles y staff. Mewn ymateb i'r pwysau sy'n ei hwynebu, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ymarfer blaenoriaethu i nodi pa agweddau ar waith y gellir eu gohirio er mwyn rhyddhau staff i ganolbwyntio ar gyflawni gweithredol (**paragraff 35**). Mae'n gadarnhaol nodi na fydd gwaith sy'n cyfrannu at ei phwyslais parhaus ar iechyd a lles ei gweithlu yn cael ei ohirio.

25 Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi safbwynt yr Ymddiriedolaeth bod ei hamcanion trawsnewid gwasanaethau tymor hwy yn allweddol i gefnogi adferiad y GIG yng Nghymru yn ehangach. Nod hirdymor yr Ymddiriedolaeth yw lleihau'n sylweddol nifer y cleifion sy'n cael eu cludo i'r ysbyty. Mae'n bwriadu gwneud hynny drwy ymdrin fwyfwy â chleifion drwy eu gweld, eu clywed, neu eu trin mewn lleoliadau nad ydynt yn ysbytai, a thrwy eu cyfeirio at leoliadau o'r fath.

26 Adolygodd Archwilio Mewnol i ba raddau y mae dyraniad cronfeydd ac adnoddau yr Ymddiriedolaeth yn gyson â blaenoriaethau y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Daeth i'r casgliad bod cynllun ariannol a chyllideb refeniw 2021-22 yr Ymddiriedolaeth wedi darparu ar gyfer datblygiadau gwasanaeth sydd â'r nod o leihau trawsgludiadau i adrannau brys, a lleihau derbyniadau i'r ysbyty.

27 Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydlu pedair prif raglen waith er mwyn cyflawni ei blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi swyddogaethau priod y Bwrdd a'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. Y Bwrdd sy'n gyfrifol yn gyffredinol am graffu ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Bwrdd Trawsnewid Strategol sy'n gyfrifol am ysgogi a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r pedair prif raglen ac am alluogi ffrydiau gwaith a fwriedir i gyflawni blaenoriaethau y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ym mis Medi 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad Gylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Bwrdd Trawsnewid Strategol i egluro swyddogaethau ac atebolrwydd.

28 Mae Archwilio Mewnol o'r farn bod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys risgiau allweddol yr Ymddiriedolaeth, megis sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid a phwysau ar y gwasanaeth sy'n deillio o ffactorau allanol a chamau lliniaru cysylltiedig. Canfu hefyd fod y rhan fwyaf o'r risgiau hyn yn cael eu cynnwys hefyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Yr eithriad

[2] Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yw'r dull y mae saith bwrdd iechyd Cymru yn ei ddefnyddio i wneud 'penderfyniadau ar y cyd ar adolygu, cynllunio, caffael a monitro perfformiad Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Gwasanaethau Perthnasol), yr Adalw Meddygol Brys a Gwasanaeth Trosglwyddo (EMRTS) a'r Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys'.

yw'r risg cyflawni, sef nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y gallu corfforaethol i gyflawni maint y newid sydd ei angen.

29 Amlygodd ein Hasesiad Strwythuredig 2019 yr angen i gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro'r modd y darperir y Cynllun Tymor Canolig Integredig (**Arddangosyn 1**). Erbyn hyn, mae gan yr Ymddiriedolaeth 'draciwr Cynllun Tymor Canolig Integredig' a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae Adroddiad Sicrwydd Cyflawni yn cyd-fynd â'r traciwr, sy'n edrych ar y cynnydd o'i gymharu â'r hyn y gellir ei gyflawni yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, rhwystrau i gyflawni, camau adferol i fynd i'r afael â chyflawniadau nad ydynt ar y trywydd iawn a risgiau i gyflawni yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn adrodd i'r Bwrdd ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac ynghylch unrhyw bryderon nad yw'r cynnydd ar y trywydd iawn.

**Arddangosyn 1: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2017 A7 Lefelau absenoldeb oherwydd salwch**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu camau i leihau lefelau salwch. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar absenoldeb oherwydd salwch drwy amrywiaeth o fesurau, a gwelodd rywfaint o welliant yn ystod 2019. Mae'r cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi dychwelyd i lefelau uchel bellach, ac mae COVID-19 yn chwarae rhan yn hyn (**paragraff 48**). |
| **2018 A4 Sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth newydd**<br>Ystyried ffyrdd o ddarparu sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd. | **Ar y gweill**<br>Mae Rhwydwaith Ysgrifenyddion y Bwrdd yn ystyried ateb ar gyfer Cymru gyfan, fodd bynnag, mae hynny'n dasg sylweddol. Yn y cyfamser, bydd yr Ymddiriedolaeth yn dechrau datblygu fframwaith deddfwriaethol sy'n gyson â'r cylchoedd busnes ar gyfer y pwyllgorau. |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2019 A2a Fframwaith Rheoli Perfformiad**<br>Dylai adolygiad o Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth fod wedi ei wneud ers amser, ac mae angen diweddaru'r Fframwaith bellach er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau diweddar i drefniadau ar gyfer Cynlluniau Cyflawni Lleol. | **Ar y gweill**<br>Gweler **paragraff 44.** |
| **2019 A2b Monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig**<br>Dylai adolygiad o Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth fod wedi ei wneud ers amser, ac mae angen diweddaru'r Fframwaith bellach er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir y Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan egluro swyddogaethau priod y Bwrdd, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. | **Cwblhawyd**<br>Gweler **paragraff 27**. |

30 Mae angen gweld dull adfer a chynllunio tymor hwy yr Ymddiriedolaeth yng nghyd-destun y pwysau digynsail ar wasanaethau y mae'n ymdrin â nhw ar hyn o bryd.

31 Mae'r galw uchel am ambiwlansys brys, gan gynnwys lefelau uchel o alwadau coch (galwadau pan fo bywyd rhywun mewn perygl uniongyrchol) yn dod ar adeg pan fo criwiau ambiwlans yn wynebu oediadau estynedig rheolaidd[3] y tu allan i adrannau brys ysbytai wrth drosglwyddo gofal.

[3] Dengys Adolygiad Lleol o Ddiogelwch, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad Cleifion wrth Aros mewn Ambiwlansys pan fydd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal mis Hydref 2021 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mai'r oriau trosglwyddo gofal a gollwyd ym mis Awst 2021 oedd yr uchaf a gofnodwyd. Mae amcanion comisiynu Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys 2021-22 yn cynnwys amcan na ddylai'r oriau a gollir wrth drosglwyddo gofal fod yn fwy na 150 awr y diwrnod am 95% o'r flwyddyn, a fyddai'n golygu colli oddeutu 5,000 o oriau y mis. Fodd bynnag, collwyd 13,969 o oriau ym mis Awst 2021.

32 Mae sawl ffactor mewnol hefyd sy’n effeithio ar allu’r Ymddiriedolaeth i ymateb i alw allanol:

- rhestrau gweithlu ledled Cymru nad ydynt yn cyfateb gystal â phosibl â’r galw presennol[4];
- arferion gwaith y mae angen eu moderneiddio er mwyn manteisio i’r eithaf ar yr amser y mae criwiau ambiwlans ar gael ar gyfer galwadau yn ystod eu sifftiau er mwyn cynyddu’r capasiti i ymateb i gleifion; a
- lefelau uchel o salwch ymhlith y staff, gan gynnwys salwch hirdymor[5]. (Gweler **Arddangosyn 2, 2017 A7**).

33 Mae nifer yr oriau ambiwlans a gollir oherwydd oediadau wrth drosglwyddo gofal y tu allan i adrannau brys wedi ei ddogfennu’n dda ac mae’n sylweddol, ac mae angen camau gweithredu system gyfan i fynd i’r afael â’r broblem. Fodd bynnag, mae’n werth nodi hefyd y gall materion mewnol yr Ymddiriedolaeth gyfrannu’n sylweddol at yr oriau a gollir. Dengys papur a gyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad mis Medi 2021 fod Ymateb y Gwasanaethau Meddygol Brys wedi colli 15,837 o oriau ar ôl cynhyrchu (PPLHs) ym mis Awst 2021, o’u cymharu â 16,138 o oriau a gollwyd oherwydd oediadau wrth drosglwyddo gofal yn ystod yr un mis.

34 Fel y cydnabu’r Ymddiriedolaeth, gyda’i gilydd, mae’r pwysau hyn yn ei hatal rhag darparu gwasanaethau diogel ac amserol yn gyson. Ar gyfer y mis hyd at 27 Gorffennaf 2021, roedd yr amser aros canolrifol i gleifion a ddosbarthwyd fel Oren 1[6] oddeutu pedair gwaith yn hirach, o’i gymharu â’r hyn ar gyfer un cyfnod yn 2020. Ar gyfer cleifion a ddosbarthwyd fel Oren 2, roedd yr arhosiad canolrifol oddeutu tair gwaith yn hirach. Ar gyfer galwadau coch, ym mis Gorffennaf 2020 a 2021 yn y drefn honno, yr arhosiad canolrifol oedd 5 munud 57 eiliad a 7 munud. Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi gofyn i’r fyddin am gymorth i yrru ambiwlansys drwy gydol gaeaf 2021. Rhoddwyd gwybod i bwyllgor Cyllid a Pherfformiad mis Medi 2021 am ‘... ddarlun sy’n dirywio o ran ansawdd a diogelwch y gwasanaeth y mae [yr Ymddiriedolaeth] yn gallu ei ddarparu’.

35 Mae’r pwysau sy’n wynebu’r Ymddiriedolaeth yn cyfyngu hefyd ar ei gallu i gyflawni ei rhaglen drawsnewid yn unol â’r amserlen. Mae trawsnewid y gwasanaeth yn allweddol i fynd i’r afael â rhai o’r pwysau yn y system, er enghraifft, drwy leihau’r niferoedd a gludir i Adrannau Brys. Fodd bynnag, hysbyswyd Pwyllgor Cyllid a

[4] Nodwn fod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cydnabod ei bod yn flaenoriaeth ‘ailgynllunio rhestrau ledled Cymru er mwyn cyfateb yn well â’r galw, yn barod i’w gweithredu drwy gydol 2022-23’.

[5] Dangosodd y papurau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Awst 2021 mai 44.9% oedd nifer y criwiau ambiwlans nad oedd ar gael ar gyfer galwadau. Mae hyn yn cynnwys diffyg gallu oherwydd hyfforddiant, gwyliau blynyddol ac ati, ond roedd salwch ymhlith criwiau ambiwlans yn 12% o’i gymharu â meincnod o 5.99%.

[6] Diffinnir galwadau ‘Oren’ fel rhai ‘difrifol lle nad oes bywyd ar y fantol’ a chânt eu categoreiddio ymhellach yn is-gategorïau.

Pherfformiad mis Tachwedd 2021 fod '... trydedd don [COVID-19], ynghyd ag effaith anuniongyrchol COVID-19, a phwysau cynyddol ar draws y system iechyd a gofal wedi effeithio ar allu [yr Ymddiriedolaeth] i ddarparu ymateb gweithredol diogel ochr yn ochr ag agweddau trawsnewidiol ar y cynllun'. Mewn ymateb, i ryddhau staff i ganolbwyntio ar ddarpariaeth y rheng flaen, mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol wedi ymgymryd ag ymarfer blaenoriaethu i nodi yr hyn y gellir ei gyflawni yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir gohirio gwaith arno.

## Systemau sicrwydd

36 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ymhellach ei threfniadau rheoli risgiau, a'i bod yn ymwreiddio gwelliannau sicrwydd ansawdd a diogelwch, ond bod cyfleoedd i wella'r broses o olrhain argymhellion.**

### Rheoli risgiau

37 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i gryfhau ymhellach ei threfniadau rheoli risgiau.**

38 Yn 2019-20, daeth Archwilio Mewnol i ddyfarniad o 'sicrwydd rhesymol' o ran 'digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol sydd ar waith, a'r cynnydd a wnaed tuag at ymwreiddio'r Fframwaith Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd mewn gweithrediadau busnes'. Gwnaeth Archwilio Mewnol wyth argymhelliad, gan gynnwys un argymhelliad â blaenoriaeth uchel yn ymwneud â swyddogaeth Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol o ran monitro neu reoli risgiau. Mae traciwr argymhellion archwilio yr Ymddiriedolaeth yn nodi bod yr holl argymhellion hyn wedi eu cwblhau yn awr.

39 Yn 2019, gwnaethom argymell camau gweithredu yr oedd eu hangen ar yr Ymddiriedolaeth i gryfhau ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Mae wedi cwblhau camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn ers hynny (gweler **Arddangosyn 2**, **A1**). Ailddechreuodd y Bwrdd a'i bwyllgorau waith craffu ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Medi 2020 (gohiriwyd yn gynharach yn 2020 oherwydd COVID-19).

40 Mae lefel briodol o waith craffu ar risgiau o ystyried yr heriau gweithredol y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu hwynebu. Mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd yn cael y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ym mhob cyfarfod er mwyn craffu arnynt. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mapio risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ac felly mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn amlygu lle y gallai risgiau gweithredol effeithio ar y broses o gyflawni bwriad strategol. Ym mis Medi 2020, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio y gorau i ddefnyddio ei adolygiadau risgiau ôl-weithredol blaenorol ac mae ganddo fynediad i gofrestrau risg Datix[7] byw yn awr. Mae'r gofrestr risgiau

[7] System cofnodi digwyddiadau a rheoli risgiau ar y we a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd yw Datix.

byw yn llawn gwybodaeth, gan gynnwys camau lliniaru. O dan y dull diwygiedig hwn, mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad ar newidiadau a chamau gweithredu a gymerwyd ers y cyfarfod blaenorol, ac maent yn gallu gweld yr wybodaeth 'fyw' ar system Datix.

41 Mae swyddogion gweithredol hefyd yn craffu ar risgiau y tu hwnt i strwythurau ffurfiol y bwrdd a'r pwyllgorau. Ar 16 Medi 2021, roedd 17 o risgiau ar y gofrestr risgiau corfforaethol, a dosbarthwyd y sgôr risg uchaf ar gyfer dau ohonynt: methu â gofalu am gleifion yn y gymuned yr oedd angen gwasanaethau 'Gweld a Thrin' arnynt ac oedi gyda chleifion ar ambiwlansys y tu allan i adrannau brys. Mewn adroddiad diweddar sy'n mynd at wraidd y ddau risg hyn, nododd Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol nifer o reolaethau a chamau gweithredu ychwanegol a gymerir ar draws yr Ymddiriedolaeth i liniaru'r ddau risg hyn. Er hynny, cytunwyd bod y sgôr uchaf posibl o 25 yn parhau i fod yn briodol.

42 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal trosolwg da o risgiau seiberddiogelwch yn ei sesiynau Pwyllgor Archwilio caeedig ac mae wedi gwella ei ddulliau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio sy'n gysylltiedig â seiberddiogelwch, ac mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r rhain wedi ei neilltuo bellach i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

**Arddangosyn 2: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2019 A1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**<br>Dylai'r Bwrdd archwilio ffyrdd o gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel offeryn sicrwydd byw a chadarn ar gyfer ei amcanion corfforaethol drwy:<br>• sicrhau bod pwyllgorau a grwpiau perthnasol yn adolygu rheolaethau a sicrwydd yn rheolaidd er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a nodi unrhyw fylchau; a<br>• sicrhau bod y pwyllgorau perthnasol yn goruchwylio'r amcanion strategol a'r risgiau a neilltuir yn rheolaidd. | **Cwblhawyd**<br>Mae pwyllgorau'n cael ac yn craffu ar Adroddiad Rheoli Risgiau a Sicrwydd Pwyllgor ym mhob cyfarfod bellach, sy'n disgrifio'r risgiau a neilltuir i'r pwyllgor, ynghyd â'r darn cysylltiedig o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. |

## Sicrhau ansawdd a diogelwch[8]

43 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu sicrwydd ar ansawdd a diogelwch yn ystod y pandemig a'i bod yn bwriadu defnyddio'r Strategaeth Ansawdd a adnewyddwyd yn ddiweddar i wella ei phwyslais ar ansawdd a diogelwch ymhellach.**

44 Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2019, gwnaethom argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ei fframwaith rheoli perfformiad i adlewyrchu newidiadau mewn trefniadau ar gyfer cynlluniau cyflawni lleol ac yn cynnwys trefniadau i fonitro yr hyn a gyflawnir. Ym mis Hydref 2020, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth weithio ar Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad a ddylai gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Bydd y Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad diwygiedig yn cynnwys cyfres o fesurau a metrigau ar draws y sefydliad i asesu cynnydd yr Ymddiriedolaeth tuag at gyflawni ei huchelgeisiau a'i hamcanion strategol.

45 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, daethom i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cyffredinol da ar gyfer goruchwylio ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau a lles ei staff. Ni newidiodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau goruchwylio ansawdd a diogelwch i raddau helaeth mewn ymateb i'r pandemig. Ers inni adrodd yn 2020, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni'r holl gamau yr oedd yn bwriadu eu cymryd i gryfhau ymhellach ei dull o ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a lles y staff. Yn benodol, mae wedi adnewyddu ei Strategaeth Ansawdd (**paragraff 46**) ac wedi cyhoeddi strategaeth lles staff (**paragraff 48**).

46 Ym mis Mai 2021, cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Ansawdd 2021-24 newydd yr Ymddiriedolaeth (y Strategaeth Ansawdd), ar ôl i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion ei chymeradwyo ymlaen llaw. Mae'r Strategaeth Ansawdd wedi ei chynllunio i gefnogi fframwaith strategol hirdymor yr Ymddiriedolaeth, sef 'Delivering Excellence 2030', ac mae'n nodi sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu bodloni gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r Strategaeth Ansawdd yn cydnabod bod 'ansawdd' yn amlweddog ac mae'n hanfodol ei fod yn cael ei ddarparu ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Ansawdd, a fydd yn cael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

47 Mae'r rhaglen archwilio clinigol wedi ailddechrau'n llawn ar ôl iddi gael ei gohirio ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig.

[8] Oherwydd ein bod yn cynnal adolygiad ar wahân o'r trefniadau llywodraethu ansawdd yn yr Ymddiriedolaeth, rydym wedi cyfyngu ar y gwaith a wnaed gennym ar drefniadau llywodraethu ansawdd yn rhan o'n hasesiad strwythuredig yn 2021. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn ddiweddarach yn 2021.

48 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei strategaeth lles staff 2020-24. Roedd hwn yn ddatblygiad pwysig o ystyried yr effaith sylweddol a ddogfennwyd yn dda y mae'r pandemig a'r pwysau cynyddol ar wasanaethau wedi eu cael ar les y staff. Er enghraifft, nododd papurau i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Medi 2021 fod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi cynyddu 'fis ar ôl mis gyda mi Mehefin yn cofnodi 8.86%, sef y lefel uchaf ers mis Ionawr 2021 (10.52%)'. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth o werthfawrogi'r staff drwy ystyried eu hiechyd a'u lles. Mae'n cynnwys amcanion a fframweithiau i gyflawni a mesur effeithiau ar iechyd meddwl a chorfforol, lles ariannol a chymdeithasol, a'r amgylchedd gwaith. Mae pob fframwaith yn cynnwys amcanion a gwybodaeth ategol am sut y caiff ei weithredu, a sut y caiff ei fesur. Mesurir trwy ddefnyddio gwasanaethau ac ymatebion i arolygon.

49 Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant am y cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu Strategaeth Iechyd a Lles 2020-2024. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r adroddiadau hyn a yw camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cyflawni'n brydlon. Yn ogystal â hynny, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi dechrau gweithredu Adnodd asesu risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu yng Nghymru a gofnodir ar y Cofnod Staff Electronig i sicrhau ei fod yn nodi ac yn cefnogi staff sy'n agored i COVID-19, yn enwedig staff o grwpiau BAME.

## Olrhain y cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion archwilio ac adolygu

50 Canfuom **fod trefniadau rhesymol i olrhain y broses o gyflawni ac archwilio argymhellion adolygu**.

51 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal traciwr argymhellion archwilio sy'n rhestru argymhellion a wneir gan archwiliadau mewnol, Archwilio Cymru a sefydliadau eraill. Mae'n olrhain argymhellion, camau gweithredu ac ymatebion rheoli cysylltiedig nad ydynt yn ddyledus, rhai sy'n rhannol gyflawn, a rhai sy'n hwyr. Mae hefyd yn cadarnhau pa gamau sydd wedi eu cwblhau ers cyfarfod blaenorol y pwyllgor.

52 Neilltuir pob argymhelliad i bwyllgor hefyd, er mwyn craffu ar y cynnydd. Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Archwilio yn archwilio'r traciwr llawn. Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, gwnaethom nodi bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn gofyn i argymhellion a dyddiadau cwblhau gael eu hadolygu ar gyfer ei gyfarfod ym mis Medi 2020, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn parhau i fod yn berthnasol a bod yr amserlenni ar gyfer eu cwblhau yn realistig. Gwnaed hyn yn unol â'r amserlen, a neilltuwyd dyddiadau cwblhau newydd mewn rhai achosion.

53 Yna, cynhaliwyd ymarfer tebyg ym mis Medi 2021 hefyd. Roedd yr adolygiad yn cynnwys mynd at wraidd yr argymhellion agored o 2018-19 a 2019-20. Argymhellodd Tîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth, a derbyniodd Pwyllgor Archwilio yr Ymddiriedolaeth, y dylid cau rhai o'r argymhellion sy'n weddill o'r blynyddoedd hyn, ac y dylid mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n cael eu datblygu yn

rhan o raglenni parhaus. Fodd bynnag, mae saith argymhelliad o'r blynyddoedd hyn sy'n parhau i fod yn agored.

54 Yn 2020-21, archwiliodd Archwilio Mewnol sampl o argymhellion archwilio mewnol i weld a yw'r Ymddiriedolaeth yn cofnodi argymhellion fel rhai sydd wedi'u cwblhau yn briodol, a daeth i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn cau argymhellion yn briodol. Ar adeg ei gyfarfod ym mis Medi 2021, roedd wyth o'r 86 o argymhellion archwilio yn hwyr (tri Archwilio Cymru a phum Archwilio Mewnol).

55 Ochr yn ochr ag asesiad strwythuredig y llynedd, cwblhaodd archwilio mewnol adolygiad ymgynghorol o drefniadau llywodraethu COVID-19 yr Ymddiriedolaeth, a nododd feysydd i'w gwella. Ym mis Awst 2021, mae 17 o feysydd gwella blaenoriaeth isel sy'n weddill, ond rhoddwyd sylw i bob maes gwella blaenoriaeth uchel sy'n weddill.

# Rheoli adnoddau ariannol

56 Ystyriodd ein gwaith berfformiad ariannol, rheolaethau ariannol a threfniadau yr Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol.

57 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fodloni ei dyletswyddau ariannol a bod ganddi drefniadau priodol ar gyfer monitro ac adrodd ar ei chyllid.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

58 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi bodloni ei dyletswyddau ariannol ar gyfer 2020-21 ac er ei bod yn adrodd ei bod ar y trywydd iawn o ran mantoli'r gyllideb yn 2021-22, bydd angen iddi fonitro'n agos y broses o gyflawni cynlluniau arbedion**.

### Perfformiad ariannol 2020-21

59 Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth y dyletswyddau ariannol statudol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n cwmpasu 2018-2021. Nododd adolygiad o gynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22 a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol fod yr Ymddiriedolaeth yn pennu cyllidebau gwariant o fewn cyfanswm y cwmpas adnoddau sydd ar gael i gyflawni cydbwysedd ariannol. Mae hyn yn unol ag Offerynnau Ariannol Statudol yr Ymddiriedolaeth a'r ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb.

60 Yn 2020-21, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth warged bach ar weithrediadau, sef £0.07 miliwn. Yn ystod y cyfnod o dair blynedd, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth warged cronnol o £0.172 miliwn. Hefyd, gwariodd yr Ymddiriedolaeth o fewn ei therfyn gwariant cyfalaf o £16.2 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad o £7.0 miliwn ar gerbydau'r Ymddiriedolaeth, £4.2 miliwn ar dechnoleg gwybodaeth a £2.1 miliwn a fuddsoddwyd wrth ddatblygu canolfan newydd yng Nghaerdydd.

61 Cymeradwywyd cyllideb 2020-21 yr Ymddiriedolaeth gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 26 Mawrth 2020, ond fe'i paratowyd cyn effeithiau'r pandemig. O ganlyniad i hynny, pennwyd y tybiaethau a'r targedau cyllidebu gan ragweld 'busnes arferol'. Cyllidebwyd mai £211.3 miliwn oedd cyfanswm yr incwm, gyda gwariant o £215.6 miliwn, gan dalu am y diffyg ag arbedion (£4.3 miliwn).

62 Yn unol â blynyddoedd blaenorol, prif incwm yr Ymddiriedolaeth oedd refeniw o weithgareddau gofal cleifion. Daeth incwm o'r pwyllgorau comisiynu[9] yn bennaf, a ddarparodd 71% o gyfanswm incwm yr Ymddiriedolaeth. Cyfrannodd byrddau iechyd lleol £35 miliwn hefyd (15%). Er bod y pandemig wedi lleihau rhai ffrydiau refeniw eraill, megis incwm wrth fynd i ddigwyddiadau chwaraeon, gwrthbwyswyd hyn gan incwm mewn meysydd eraill sy'n uwch na'r gyllideb, gan adennill TAW yn bennaf (£0.593 miliwn). Ar y cyfan, roedd yr incwm a dderbyniwyd yn uwch na'r gyllideb. Roedd gwariant nad oedd ar gyflogau £0.618 miliwn yn fwy na'r swm a gyllidebwyd, ac roedd gwariant ar gyflogau £0.139 miliwn yn is na'r gyllideb.

63 Er gwaethaf y pandemig, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged arbedion o £4.3 miliwn ar gyfer 2020-21. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r arbedion (£2.5 miliwn) o wariant nad oedd ar gyflogau, er bod hyn 12% yn is na'r ffigur a gyllidebwyd ac fe'i gwrthbwyswyd gan arbedion gwariant cyflog a oedd 22% yn uwch na'r targed (cyfanswm o £1.8 miliwn).

64 Cododd gwariant ychwanegol ar ôl dyfodiad y pandemig a'r ymateb dilynol gan yr Ymddiriedolaeth. Cofnododd yr Ymddiriedolaeth y treuliau hyn yng nghofnod gwariant COVID-19 yn hytrach nag yng nghyllidebau'r gwasanaethau arferol. Roedd y pandemig yn gofyn am wariant ychwanegol mewn amrywiaeth o feysydd, megis cyflogau ychwanegol am staff a chostau glanhau ychwanegol. Darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £21.7 miliwn i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21, a oedd yn cynnwys £13.8 miliwn o gyllid ychwanegol i dalu am gostau'r pandemig. Gwariwyd hyn yn y meysydd canlynol:

- £6.2 miliwn o wariant ychwanegol nad oedd ar gyflogau
- £3.9 miliwn o wariant ychwanegol ar gyflogau (gan gynnwys Croniad Gwyliau Blynyddol o £1.8 miliwn)
- £3.7 miliwn ar gyfer y taliad bonws a ddyfarnwyd i holl staff y GIG

## Perfformiad ariannol 2021-22

65 Ar ddiwedd pumed mis blwyddyn ariannol 2021-22, adroddodd yr Ymddiriedolaeth sefyllfa ariannol refeniw gronnol o danwariant bach, sef £8,000, o'i gymharu â'r gyllideb. Sefyllfa gytbwys yw'r rhagolwg diwedd blwyddyn ar gyfer 2021-22. Gwnaed gwariant ychwanegol o £2.2 miliwn oherwydd COVID-19. Rhagorwyd ar dargedau arbedion y flwyddyn hyd yma. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni arbedion gros o £1.888 miliwn o'u cymharu â tharged o £1.760 miliwn.

[9] Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yw'r pwyllgorau comisiynu.

66 Mae cynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22 yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r holl wariant COVID-19 ychwanegol. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod hon yn dybiaeth bwyllog am sawl rheswm. Mae'n trafod â Llywodraeth Cymru yn aml ynghylch gwariant COVID-19. Mae costau'r Ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn gymharol isel yng nghyd-destun yr hyn a ysgwyddir gan y GIG ehangach yng Nghymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Medi 2021 fod hyder y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i dalu'r costau uniongyrchol na ellir eu hosgoi y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu hysgwyddo oherwydd y pandemig.

67 Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2021-22 yn cynnwys gofyniad am arbedion o £2.8 miliwn i gydbwyso cyllideb yr Ymddiriedolaeth. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i gyflawni cynlluniau arbedion mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ei gwneud yn glir nad oedd arbedion blaenorol yn digwydd eto. O ganlyniad i hynny, bydd angen arbedion newydd i fantoli'r gyllideb. Ym mis Awst 2021, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrth Lywodraeth Cymru nad oedd yn glir a fyddai'r holl arbedion arfaethedig[10] yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Cofnododd yr Ymddiriedolaeth fethiant i gyflawni ei tharged cynilo fel risg categori isel oherwydd dau reswm. Yn gyntaf, oherwydd y gallai barhau i fantoli'r gyllideb hyd yn oed heb gyflawni ei tharged arbedion llawn, drwy danwario mewn meysydd eraill. Yn ail, mae wedi dangos perfformiad da hyd yma o'i gymharu â'i thargedau arbedion (**paragraff 65**). Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai angen rheoli unrhyw ddiffyg yn lleol.

68 Yn unol â'n canfyddiadau yn 2020, mae'n dal i fod yn wir fod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth reoli ei phrosiectau cynilo yn ofalus, yn enwedig o ystyried y diffyg eglurder ynghylch a fydd yn cyflawni ei thargedau arbedion ar gyfer 2021-22 a'r risg na fydd yn cael ad-daliad llawn am wariant COVID-19.

## Rheolaethau ariannol

69 Canfuom fod gan **yr Ymddiriedolaeth reolaethau ariannol effeithiol, trefniadau addas ar gyfer atal a chanfod twyll, a gwell prosesau ar gyfer cymeradwyo gwariant COVID-19.**

70 Ni newidiodd yr Ymddiriedolaeth ei rheolaethau ariannol yn sylweddol yn ystod y pandemig. Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2019, barnwyd gennym fod y rheolaethau ariannol hyn yn 'effeithiol ar y cyfan'. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn 'gwella eglurder a manylion yr adroddiadau rheolaidd ar gamau tendro sengl a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio fel y gellir ymgymryd â gwaith craffu cadarn yn effeithiol'. Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn erbyn mis Ebrill 2021, flwyddyn ar ôl y dyddiad cau y cytunwyd arno.

[10] Yn ddiweddarach yn 2021-22, mae Archwilio Mewnol yn bwriadu adolygu sut mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ac yn cyflawni arbedion.

71 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, daethom i'r casgliad bod Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn '... glir ar y weithdrefn pan fo angen hepgor trefniadau tendro' (gweler **Arddangosyn 3, A4**). Y flwyddyn honno, ni wnaethom unrhyw argymhellion ffurfiol, ond gwnaethom nodi'r canfyddiad Archwilio Mewnol bod angen i'r Ymddiriedolaeth wella prosesau cymeradwyo ar gyfer gwariant COVID-19 a chryfhau rheolaethau ar gyfer taliadau ychwanegol i staff. Mae'r ddau welliant wedi eu rhoi ar waith. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi symud ymlaen i ddull o gymeradwyo prosesau sy'n debycach i 'fusnes arferol' ac mae wedi cadw cofnod archwilio o'r hyn a gymeradwyir. Roedd taliadau ychwanegol eisoes yn ddarostyngedig i adolygiad a chymeradwyaeth, ac roedd cofnod archwilio yn cael ei gynnal. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi tynnu'r cyfleuster i staff hawlio taliadau ychwanegol[11] yn ôl bellach ac nid oes ganddi unrhyw fwriad o agor hwn eto, oherwydd dim ond darpariaeth tymor byr y bwriadwyd iddo fod erioed.

72 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio gweithdrefn Camau Gweithredu Cadeiryddion sydd eisoes yn bodoli lle mae Cadeirydd y Bwrdd a nifer benodol o Aelodau'r Bwrdd yn cymeradwyo trafodiadau sy'n uwch na therfyn dirprwyedig y Prif Weithredwr. Pan ddefnyddiwyd y weithdrefn hon, fe'i hadroddwyd i'r Bwrdd yn ddiweddarach.

73 Dyfarnodd adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Awst 2021, a edrychodd ar gynlluniau ariannol a rheolaeth gyllidebol, sgôr sicrwydd rhesymol i'r ddau faes rheoli ariannol canlynol:

- proses ar gyfer dirprwyo cyllidebau i ddeiliaid cyllidebau; a
- chynnal rhestr o'r llofnodwyr awdurdodedig, sy'n nodi'r unigolion sy'n cael cymeradwyo gwariant o'u cymharu â phob canolfan gostau a'u terfynau ariannol.

Canfu'r un adolygiad hefyd, er bod dyluniad y broses ar gyfer cymeradwyo a gweithredu trosglwyddiadau yn ymddangos yn rhesymol, nid oedd yn gallu dyfarnu sgôr sicrwydd yn y maes hwn oherwydd nad oedd unrhyw enghreifftiau y gallai Archwilio Mewnol eu defnyddio i'w profi.

74 Daw'r adroddiad i'r casgliad hefyd fod 'Monitro ac adrodd ariannol yn gweithredu ar draws pob lefel o strwythur yr Ymddiriedolaeth' ond hefyd mai 'lefel isel o nodiadau neu gofnodion cyfarfodydd deiliaid cyllideb a welwyd i ddangos canlyniadau cyfarfodydd neu gamau gweithredu'. O ganlyniad i hynny, argymhella y dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu dull o sicrhau bod amlder cyfarfodydd deiliaid cyllideb yn adlewyrchu maint y gyllideb, ac yn gwella'r broses o gofnodi camau gweithredu/canlyniadau cyfarfodydd deiliaid cyllideb. Mewn ymateb, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddatblygu templed i gasglu canlyniadau/ camau gweithredu cyfarfodydd deiliaid cyllideb yn gyson.

[11] I gydnabod yr oriau gormodol a gyfrannodd uwch-reolwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth, caniatawyd i staff cymwys hawlio lwfans digolledu o 10 neu 15%, gan ddibynnu ar y gwaith ychwanegol a wnaed, yn lle taliadau goramser a oedd wedi eu rhestru.

75 Daeth ein hasesiad o drefniadau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer atal a chanfod twyll[12] mis Tachwedd 2020 i'r casgliad bod yr ymddiriedolaeth 'yn dangos ymrwymiad clir i atal twyll, bod ganddi drefniadau addas i gefnogi atal a chanfod twyll a'i bod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd'. Mae ein hargymhellion i sicrhau capasiti digonol ac i wella trefniadau rheoli risgiau ar gyfer risgiau gwrth-dwyll wedi eu cwblhau. Mae un argymhelliad sy'n weddill, sef gwella ymwybyddiaeth a chyfrifoldebau gwrth-dwyll y staff.

**Arddangosyn 3: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2019 A3 Cynllunio cyfalaf**<br>Mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu dull llai blynyddol o gynllunio cyfalaf. Dylai ddatblygu strategaeth rheoli asedau i helpu i gynllunio'r defnydd o gyfalaf mewn ffordd fwy cydgysylltiedig yn ystod y tymor canolig. | **Ar y gweill**<br>Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau strategaeth rheoli asedau eto, ond mae cylch gwaith y Bwrdd Rheoli Cyfalaf yn cynnwys rheoli'r gwaith hwn. |
| **2019 A4 Camau tendr sengl**<br>Gwella eglurder a manylion yr adroddiadau rheolaidd ar gamau tendro sengl a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio fel y gellir ymgymryd â gwaith craffu cadarn yn effeithiol, er enghraifft:<br>• cynnwys mwy o fanylion ynghylch pam yr oedd angen y camau gweithredu; a<br>• darparu naratif i ddisgrifio amrywiadau rhwng cost sydd wedi ei chyllidebu a'r gost wirioneddol. | **Cwblhawyd**<br>Gweler **paragraff 70** |

[12] Archwilio Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) – Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll, Tachwedd 2020

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2018 A6a Goruchwylio a derbyn cyfrifoldeb dros gaffael**<br>Gwella goruchwyliaeth a derbyn cyfrifoldeb dros y gweithgarwch caffael a wneir ar ei rhan gan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, drwy adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth. | **Cwblhawyd**<br>Mae elfen gaffael y Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi ei hadolygu. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau perfformiad chwarterol gan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy'n cynnwys sylw i'r elfen gaffael, ac mae'n cael trafodaethau rheolaidd ag uwch-gydweithwyr caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. |

## Monitro ac adrodd

76 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn darparu digon o wybodaeth glir i aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau i'w galluogi i gyflawni gwaith monitro ariannol yn effeithiol.**

77 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ei pherfformiad ariannol i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae'r ddau ohonynt yn cael adroddiad sy'n manylu ar y perfformiad ariannol yn ystod y mis diweddaraf a gwblhawyd o'i gymharu â'r targedau. Mae'r adroddiad yn dadansoddi'r perfformiad ym mhob maes, megis incwm, gwariant ar gyflogau, a gwariant nad yw ar gyflogau. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r gwariant COVID-19 ychwanegol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am arbedion hyd yn hyn, gwariant cyfalaf, a risgiau a rhagdybiaethau ariannol. Mae'r wybodaeth hon yn ddigon manwl ac mae'n dangos perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn glir i'r Bwrdd a'r Pwyllgor. Hefyd, mae'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd oherwydd ei bod yn cael ei chyhoeddi yn yr agenda, cyn cyfarfodydd bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

78 Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno ffurflen monitro misol i Lywodraeth Cymru sy'n manylu ar ei pherfformiad ariannol, gan ei gymharu â'r perfformiad a ragwelir. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor hefyd yn cael copïau o'r ffurflenni misol, er mwyn craffu arnynt.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.